Mae UNSAIN yn ymgyrchu dros godiad cyflog teg i weithwyr cynghorau ac ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cyflwyno hawliad cyflog sy'n galw am godiad cyflog o £3,000 neu 10%, pa un bynnag sydd uchaf yn eich amgylchiadau unigol chi. Byddai cynnydd cyfradd safonol yn cael ei gyfrifo pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser a'r rheini sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig. Mae cynnig cyflog teilwng yn hanfodol a dim ond drwy sefyll gyda'n gilydd y gwnawn ni anfon neges glir at gyflogwyr eich bod yn haeddu mwy.

Dyma 3 enghraifft o bethau syml a hawdd y gallwch chi eu gwneud heddiw:

1. Gwirio a diweddaru eich data

Treuliwch 5 munud yn gwirio pa fanylion sydd gennym ni yn barod gan ddefnyddio MyUNISON – www.unison.org.uk/my-unison

2. Cysylltu â'ch cynghorydd

Mae gennym ni e-bost parod i'w anfon y gallwch chi ei ddefnyddio i ofyn iddyn nhw gefnogi codiad cyflog teilwng i staff cynghorau ac ysgolion: https://action.unison.org.uk/page/145600/action/1

3. Taro golwg ar ein map rhyngweithiol a lobïo eich AS i gael rhagor o gyllid

Mae'r diffygion cyllido difrifol mewn cynghorau lleol yn fwy amlwg nag erioed. Mae arnom angen cymorth ariannol priodol gan y llywodraeth ganolog i fuddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol a galluogi'r codiad cyflog teilwng y mae gweithwyr cynghorau ac ysgolion yn ei haeddu. A fyddech cystal â lobïo eich AS drwy glicio ar ein map rhyngweithiol i weld y bwlch yng nghyllideb eich cyngor ac anfon e-bost ein hymgyrch atynt:https://councilcuts.unison.org.uk/data-visualisation/p/1

Sefwch gyda'ch gilydd dros gyflogau gwell

TÂL GWEITHIWR YSGOL A CHYNGOR 2024

UNISON Cymru Wales

Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrch ar gael yn:
www.unison.org.uk/LGpay

Published by UNISON, 130 Euston Road, London NW1 2AY • CU / March 2024 / 299 / 4583